

Perffaith ffydd – perffaith hedd

“Yr wyt yn cadw mewn heddwch perffaith y sawl sydd â’i feddylfryd arnat, am ei fod yn ymddiried ynnot.” (adn. 3)

Beth am ddarllen Eseia 26:1–6 ac yna myfyrio

Mae’r adnod rymus yma o’r Hen Destament yn dangos yr angen am ganoli ein meddyliau’n fwriadol ar Dduw. Nid lle i gyfeirio ato’n achlysurol ydy Duw; mae’n rhaid iddo fod yn ganolbwynt ein serch a’n teyrngarwch. Does dim amheuaeth mai dyma sut oedd Iesu’n byw. Mae’n rhaid i ni edrych arno wrth iddo gerdded drwy dudalennau’r efengylau i weld bod ei feddwl bob amser wedi’i hoelio ar Dduw. Ond yn ogystal â bod â’n meddyliau wedi’u hoelio ar Dduw, mae arnom angen ffydd hefyd, fel y dywed y testun. Roedd ymddiriedaeth Iesu yng nghariad ei Dad a’i fwriadau yn berffaith, ac felly roedd yn mwynhau perffaith hedd.

Canlyniadau diffyg ffydd yn Nuw ydy fod pethau’n disgyn yn ddarnau, gan nad ydy’r canol yn gallu dal. Mae hyn bob amser yn digwydd pan nad Duw ei hun sydd yn y canol.

Mae llawer iawn o bobl yn credu bod crynhoi pethau materol o gymorth i gadw pryder draw, ond yn aml yn gweld bod hynny’n ei waethygu. I filiynau, mae hyn yn arwain at ddiffyg cwsg. Mae’n drist iawn bod cymaint heb fod yn barod ar gyfer y dydd o’u blaenau oherwydd eu bod heb gael cwsg i’w hadfer. Mae’n ymddangos nad oedd Iesu’n cael unrhyw drafferth cysgu – ar un achlysur, cysgodd drwy storm (Math. 8:24)! Gadewch iddo anadlu ei dangnefedd yn ddwfn i’ch calon a byddwch chithau’n gallu cysgu drwy bob ‘storm’.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 37:1–11; Rhuf. 15:5–13

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pwy sy’n mwynhau ‘heddwch llawn’ yn ôl y salmydd?
2. Beth ydy gweddi Paul ar gyfer y Cristnogion yn Rhufain?

Gweddi

O Dad, mi wela i’n fwy eglur nag erioed dy fod yn dymuno rhoi tangnefedd mewnol dwfn. Cynorthwya fi i f’agor fy hun i’th dangnefedd iachusol di. Boed i’m meddwl fod wedi’i hoelio arnat ti ac nid ar fy helbulon i. Yn enw Iesu. Amen.